

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 2)**

Y BIL CYFIAWNDER TROSEDDOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29.2 yn ei gwneud yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Cyfiawnder Troseddol ("y Bil") gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 14 Tachwedd 2023. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 29 Ionawr 2024.
3. Ar 20 Rhagfyr 2023, cyflwynodd Llywodraeth y DU set gyntaf o welliannau. Nid oedd y gwelliannau hyn yn gwneud Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol nac ychwaith yn dod o fewn materion datganoledig. Cyflwynodd Llywodraeth y DU ail set o welliannau ar 9 Ionawr 2024 i'w hystyried yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin (a gyhoeddwyd ar 10 Ionawr). Mae tri o'r gwelliannau hyn yn sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn (Memorandwm Rhif 2) yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd Llywodraeth y DU drydedd set o welliannau ar 18 Ionawr nad ydynt yn sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.
4. Nid oedd y swyddogion yn gallu bodloni'r terfyn amser arferol o bythefnos ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn. O ystyried maint a chymhlethdod y Bil, roedd angen amser ar y swyddogion i drafod y gwelliannau ar draws meysydd perthnasol Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag amser i drafod â chyd-weithwyr yn Llywodraeth y DU a phartneriaid yr ymddiriedir ynddynt fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Plismona yng Nghymru a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Mae sefyllfa'r Bil hwn yn newid yn gyflym, felly dim ond ar y dyddiad y cawsant eu gosod gan Lywodraeth y DU y gwelsom y gwelliannau, sydd hefyd wedi cael effaith ar amserlenni. Er fy mod yn cydnabod yr effaith ar amserlenni craffu, yn ymarferol roedd angen cael y sgyrsiau hyn gyda phartneriaid i ddod i safbwynt sydd wedi'i resymu a'i ystyried yn briodol ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn.

Yr Amcan(ion) Polisi

5. Mae'r Bil yn cynnwys ystod eang o fesurau sy'n effeithio ar feysydd fel troseddau cyllyll, profion cyffuriau adeg arestio, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau difrifol a threfnedig, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, capasiti mewn

carchardai a'r broses ddedfrydu. Mae hefyd yn cynnwys y ddeddfwriaeth olynol ar gyfer Deddf Crwydraeth 1824, a dyletswydd gonestrwydd newydd ar gyfer plismona. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn ymwneud â'r holl faterion hyn.

6. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn fel y'u nodir yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ar 9 Ionawr, gyda'r papur gwelliannau a gyhoeddwyd ar 10 Ionawr y gellir dod o hyd iddo yn: [criminal_rm_pbc_0110.PDF \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk/criminal-justice-reform/0110)

Newidiadau i'r Bil ers gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (dyddiedig 29 Ionawr) – gwelliant y cytunwyd arno yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin

7. Ers i'r Bil gael ei gyflwyno ar 14 Tachwedd 2023, gosodwyd tri gwelliant sy'n sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.
8. Byddai Gov 70 yn diwygio Cymal 43 (gorchmynion atal cardota sy'n achosi niwsans) o'r Bil. Byddai Cymal 43 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a swyddogion heddlu i wneud cais am orchmynion atal. Byddai'r gwelliant yn gwneud mân ddiwygiad technegol i'r cymal hwn i adlewyrchu terminoleg gywir ar gyfer gwneud cais i'r llys ynadon o dan ei awdurdodaeth sifil, hy "cwyn" ("*a complaint*") yn iawn, am orchmynion atal cardota sy'n achosi niwsans.
9. Byddai Gov 77 yn diwygio Cymal 56 (gorchmynion atal cysgu allan sy'n achosi niwsans) o'r Bil. Byddai Cymal 56 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a swyddogion heddlu i fynd i'r afael â chysgu allan sy'n achosi niwsans. Byddai'r gwelliant hwn yn gwneud mân ddiwygiad technegol i adlewyrchu terminoleg gywir ar gyfer gwneud cais i'r llys ynadon o dan ei awdurdodaeth sifil, hy "cwyn" ("*a complaint*") yn iawn, am orchmynion atal cysgu allan sy'n achosi niwsans.
10. Byddai NC22 yn mewnosod cymal newydd yn y Bil ar estyn pwerau gwasgaru i awdurdodau lleol, a fyddai'n diwygio Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Ar hyn o bryd, dim ond swyddogion heddlu gaiff arfer pwerau gwasgaru o dan adran 35 o Ddeddf 2014. Byddai'r gwelliant hwn yn galluogi awdurdodau lleol i arfer y pwerau gwasgaru hefyd.
11. Mae'r gwelliannau hyn i gymalau presennol y Bil a'r cymal newydd a fewnosodir yn gosod swyddogaethau ar awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n awdurdodau datganoledig yng Nghymru, ac yn sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y sail honno. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno â'r asesiad hwn.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a gyflwynwyd ar 9 Ionawr 2024

12. Mae Llywodraeth Cymru yn dal ei safbwynt yn ôl ar Gov 70 a Gov 77, i'r graddau y maent yn ymwneud ag awdurdodau lleol, hyd nes y bydd Llywodraeth y DU wedi darparu rhagor o wybodaeth. Mae hyn yn seiliedig ar yr un rhesymeg â'r hyn a nodir ar gyfer Cymal 43 ar Gardota a Chymal 56 ar Gysgu Allan yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 29 Ionawr. Mae gennym bryderon sylweddol o hyd ynghylch y dull cyffredinol o ymdrin â chardota a chysgu allan a nodir yn narpariaethau'r Bil, ac ni fyddai'n briodol cydsynio i'r gwelliannau hyn tra bo'r pryderon hynny'n parhau. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y cymalau hyn a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd wrth i'r ymgysylltiad hwn barhau.
13. O ran NC22, rydym yn argymhell y dylai'r Senedd gydsynio i'r gwelliant hwn i'r graddau y mae'n gwneud newidiadau mewn perthynas ag Awdurdodau Datganoledig Cymru. Rydym wedi trafod y cynnig hwn â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru sydd wedi tynnu sylw at rai pryderon – yn enwedig o ran sut y bydd diogelwch swyddogion awdurdodau lleol sy'n cyflwyno gorchymyn yn cael ei sicrhau, ac a fydd digon o adnoddau gorfodi ar waith i wneud y pwerau ychwanegol yn effeithiol yn ymarferol. Rydym wedi codi'r pryderon hyn gyda'r Swyddfa Gartref sydd wedi rhoi sicrwydd ar y materion hyn. O ystyried bod y gwelliant yn sbarduno'r broses gydsynio dim ond i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i Awdurdodau Datganoledig Cymru, at ei gilydd credwn ei bod yn briodol argymhell cydsyniad. Byddwn yn parhau i amlygu'r pryderon a fynegwyd gan bartneriaid drwy ein hymgysylltiad â Llywodraeth y DU ar y Bil a'r modd y'i rhoddir ar waith.

Goblygiadau ariannol

14. Mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol, ond ni fydd y sefyllfa yn glir hyd nes y gweithredir y mesurau yn y Bil.

Casgliad

15. Mae Llywodraeth Cymru yn dal ei safbwynt yn ôl ar Gov 70 a Gov 77, i'r graddau y maent yn ymwneud ag awdurdodau lleol, hyd nes y bydd Llywodraeth y DU yn darparu rhagor o wybodaeth.
16. Ar gyfer NC22, er bod mater pwnc datganoledig yn cael ei drin, mae'n annhebygol y gellid atgynhyrchu'r ddarpariaeth mewn Bil gan y Senedd. O gofio hynny, ynghyd â'r sicrwydd gan y Swyddfa Gartref y bydd y canllawiau statudol angenrheidiol yn cael eu darparu ar y materion hyn, rydym yn argymhell bod y Senedd yn cydsynio i'r gwelliant hwn.

Lesley Griffiths AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
2 Ebrill 2024